

Sain y Morthwylion Rossini

Trefniant Helen Woods

Gradd

Heriol

Ynglŷn â'r gân hon

'Sain y Morthwylion' yw'r gân olaf ar ddiwedd act gyntaf *The Barber of Seville* (1816), opera enwocaf y cyfansoddwr Eidalaid, Gioachino Rossini. Yn yr olygfa yma, mae'r heddlu'n cyrraedd tŷ Doctor Bartolo i dal Cownt Almaviva, sydd wedi'i guddio fel 'Lindoro' – ond maent yn ei ryddhau pan mae'n datgelu ei wir hunaniaeth.

Mae pob un o gymeriadau'r opera ar y llwyfan, ac mae pawb wedi drysu ynglŷn â pham mae 'Lindoro' wedi cael ei ryddhau. Mae'r awyrgylch yn llawn tensiwn, gan fod Doctor Bartolo yn ddig ac mae Almaviva eisiau achub Rosina (merch fabwysiedig Doctor Bartolo). Mae 'Sain y Morthwylion' yn mynegi emosiynau pawb; maent yn teimlo eu bod yn mynd yn wallgof!

Amrediad lleisiol

Yn gyffredinol 13eg F i D



- ♪ Rhythm llafar – dim cwmpas lleisiol penodol yn ofynnol
- ♪ Llais 1 9fed C4 i D5
- ♪ Llais 2 6ed B3 i G4
- ♪ Unawd Soprano 7fed B4 i A5

Fformat lleisiol

4 Rhan (3 melodig, 1 rhythmig):

- ♪ Rhythm llafar
- ♪ Llais 1
- ♪ Llais 2
- ♪ Unawd Soprano

Themâu/Pynciau

- ♪ Opera
- ♪ Cân 'patter'
- ♪ Sŵn/Cynnwrf
- ♪ Pendro/Dryswch

Elfennau a nodweddion cerddorol

- ♪ Tempo llon, pwerus
- ♪ Rhythmau llais ergydol
- ♪ Defnyddio *staccato* (nodau bŷr, ar wahân)
- ♪ *Sotto voce* ('o dan y llais', distaw)



Rhestr Termau

Cyfeiliant Cerddoriaeth yr offerynnau sy'n chwarae ynghyd â'r cantorion.

Ensemble Dau neu fwy o bobl yn canu neu'n chwarae offeryn ar yr un pryd.

Libretto Y testun a ddefnyddir mewn opera neu waith lleisiol hir arall.

Opera buffa Eidaledd am 'opera comig'.

Staccato Gair Eidaleg sy'n golygu nodau byr, ar wahân.

Coloratura Gair Eidaleg sy'n golygu 'llywio'. Mae'n dynodi addurniad cywrain alaw, yn aml gyda llawer o nodau'n cael eu canu'n gyflym iawn.

Tempo Cyflymder.

Aria Cân ar gyfer llais unigol mewn opera.

Serenâd Cân serch, neu'r weithred o ganu'r gân hon i rywun.

Descant Rhan uchel wedi'i chanu dros ben y brif alaw.

Sain y Morthwylion

Nodyn gan y trefnydd Helen Woods

'Rwy'n chwarae'r drymiau o'r gamelan Jafanaidd. Mae gan bob sŵn y drymiau enw gwahanol er mwyn i chi allu siarad y synau. Er enghraifft, 'Tac tac chung dah... dah chung... dah chung...'
Defnyddiais y syniad yma fel ysbrydoliaeth ar gyfer y rhythm llafar yn 'Sain y Morthwylion', i swnio'n debyg i beiriant ond gan ddefnyddio synau y gallech ddod o hyd iddynt wrth ddrymio!

Pa eiriau mae'r peiriannau o'ch cwmpas yn siarad? Fe allech chi ddefnyddio fy ngeiriau i neu efallai greu eich geiriau eich hun i ailadrodd mewn patrwm.'

Caneuon 'patter'

Mae 'Sain y Morthwylion' yn un o 'ganeuon patter' Rossini: cân gyflym gyda geiriau troellog, sydd yn odli. Mae caneuon patter yn aml yn ymddangos mewn opera buffa – enghraifft arall o *The Barber of Seville* yw aria enwog Figaro, 'Largo al factotum' ('Gwnewch ffordd i'r tasgmon'). Un o'r caneuon

patter mwyaf adnabyddus yw 'I Am the Very Model of the Modern Major General' o *The Pirates of Penzance* gan Gilbert a Sullivan - gwelwch a allwch chi ddweud y frawddeg hon yn gyflymach ac yn gyflymach! Gallwch hefyd glywed caneuon patter mewn ffilmiau Disney fel *Mary Poppins* ('Supercalifragilisticexpialidocious') a *Moana* (rap Maui yn 'You're Welcome'). Gellid hyd yn oed gymharu caneuon patter cyflym Rossini â thraciau gan rapwyr modern!

Heriau canu Rossini

- ♪ Mae angen rheolaeth anadl dda ar gyfer y brawddegau hir, cyflym.
- ♪ Mae angen ynganiad da fel y gall cynulleidfaoedd glywed y geiriau'n glir, yn enwedig yn ystod darnau cyflym.
- ♪ Mae angen hyblygrwydd lleisiol ar gyfer canu **coloratura**. Creodd Rossini 'Gorgheggi e solfeggi', set o ymarferion i helpu i wella ystwythder y llais.

Mae anadlu cyfnodol yn ddefnyddiol pan rydych chi'n canu mewn grŵp,



yn canu'n gyflym ac/neu os oes gennych chi lawer o eiriau i'w canu. Nod anadlu cyfnodol yw creu llinell ddi-dor sy'n gwneud i'r gynulleidfa feddwl nad yw'r cantorion yn cymryd anadl o gwbl! Gwiriwch gyda'r

person sydd nesaf i chi lle mae'r ddau ohonoch yn mynd i anadlu wrth ganu 'Sain y Morthwylion'; gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dewis gwahanol eiriau – rhaid i chi beidio ag anadlu ar yr un pryd!

Sain y Morthwylion

Ymarferion cynhesu gan *The Barber of Seville*

- ♪ Cynhesu'r wyneb: tylino'ch wyneb; glanhewch eich dannedd â'ch tafod; cogiwch gnoi taffi; triliau gwefusau; rholio 'r'; chwythu mefus.
- ♪ Ailadroddwch 'la' ar un nodyn. Rhowch gynnig arni'n araf ar y dechrau, yna cyflymwch. Sicrhewch fod y nodyn yn aros yr un peth a bod yr ên wedi ymlacio - ni ddylai fod yn symud i fyny ac i lawr gormod!
- ♪ Geiriau troellog o *aria* Figaro, 'Largo al factotum': 'Rydw i yno, Figaro yma, Figaro yno, Figaro yma, Figaro yno, Figaro i fyny, Figaro i lawr, Figaro i fyny, Figaro i lawr! Fi yw'r prysuraf, fi yw'r prysuraf, mwyaf clyfar yn y dref i gyd, y dref i gyd, y dref i gyd, y dref i gyd, y dref i gyd!'
- ♪ Geiriau troellog o 'Sain y Morthwylion': 'Ac mae'r meddwl o dan gwmwl, taro, taro, o am guro ac mae'r meddwl o dan gwmwl! (x2). Canolbwyntiwch ar y cytseiniaid gyda'r ymarfer yma!

Ymarferion CânSing

- ♪ Ymarfer Anadlu 3 (Ynganiad)
- ♪ Ymarfer Ynganiad 1 (Geiriau Troellog)
- ♪ Ymarfer Ynganiad 2 (Geiriau Troellog)
- ♪ Ymarfer Llais 2 (Ffidl didl ffa)
- ♪ Ymarferion Bît Bocsio 1, 2 & 3

Dysgu'r gân

Adeiladwch y gân yn araf, fesul adran (A1, A2, B, A3, C a D), un cam ar y tro:

- ♪ Siaradwch y geiriau'n araf
- ♪ Siaradwch y geiriau yn y rhythm
- ♪ Canwch y geiriau i'r alaw (mewn rhythm)
- ♪ Os yw hyn yn anodd, canwch yr alaw i sain 'dah' mewn rhythm heb y geiriau. Yna defnyddiwch y geiriau wedyn.
- ♪ Ymarferwch ar gyflymder dysgu nes eich bod yn hyderus, yna rhowch gynnig ar yr cyflymder llawn.
- ♪ Symudwch i'r adran nesaf.

Sgrin Ddigidol

- ♪ Mae dau gyflymder ar y sgrin: 'trac dysgu' ar gyfer ymarfer, a 'her cyflymder llawn' pan fyddwch yn teimlo'n barod!
- ♪ Gallwch lywio o amgylch y gwahanol adrannau gan ddefnyddio'r marcwyr ar waelod y sgrin.
- ♪ Gallwch hefyd ddewis i glywed y trac llawn (gyda neu heb descant), neu rannau lleisiol unigol.

- ♪ Mae dwy set o fariau golau i'ch helpu chi i ddilyn y nodau: un ar gyfer Llais 1 (oren), ac un ar gyfer Llais 2 (piws). Mae Llais 2 yn ymuno yn Adran C2 (gweler y tabl 'Strwythur y Gân' ar y dudalen nesaf).
- ♪ Rydym hefyd wedi darparu cerddoriaeth ukulele fel y gallwch chi chwarae ynghyd â'r gân!



Sain y Morthwylion

Strwythur y gân

Adran	Cymeriadau	Rhannau llais	Rhifau Bar (ar y sgôr)
A1 and A2	Pawb	Rhythm llafar	3 – 20
		Llais 1	5 – 20
B	Pawb	Rhythm llafar Llais 1	21 – 26
A3	Pawb	Rhythm llafar Llais 1	27 – 34
Ailadrodd o'r dechrau			
C1	Berta, Rosina, Cownt, Figaro	Llais 1	36 – curiad cyntaf o 43
C2	Berta, Rosina, Cownt, Figaro. Bartolo, Basilio	Llais 1	Ail guriad o 43 – curiad cyntaf o 51
		Llais 2	Pedwerydd curiad o 43 – curiad cyntaf o 51
C3	Berta, Rosina, Cownt, Figaro. Bartolo, Basilio. Corws (Dynion: Tenoriaid a Basau)	Soprano Solo Voice 1 Voice 2	Ail guriad o 51 – curiad cyntaf o 59
D1 (ailadrodd fel D2)	Berta, Rosina, Cownt, Figaro. Bartolo, Basilio. Corws (Dynion: Tenoriaid a Basau)	Unawd Soprano Llais 1 Llais 2	Ail guriad o 59 – 81
		Rhythm llafar	59 – 81



Myfyrio a cherddoriaeth: cwestiynau enghreifftiol

- ♪ Beth yw naws y gân hon? Sut mae'n gwneud i chi deimlo?
Er enghraifft, 'mae'r gân hon yn gwneud i mi deimlo'n benysgafn ac yn frysiog'.
- ♪ Pam ydych chi'n teimlo felly? Beth sy'n dylanwadu ar eich ateb?
Er enghraifft: y tempo (cyflymder), y testun, y cyfeiliant (offerynnau), ac ati.
- ♪ Faint a pha fath o guriadau sydd mewn bar? **4 curiad crotchet**
- ♪ Ym mha allwedd mae'r darn? **C fwyaf**

Sain y Morthwylion

The Barber of Seville Crynodeb

Act Un

Mae Rosina yn byw gyda'i gwarcheidwad, Dr Bartolo yn Seville, Sbaen. Y tu allan i dŷ Dr Bartolo, mae cerddorion yn canu serenâd i Rosina. Yn eu plith mae Cownt Almaviva, wedi'i guddio fel Lindoro. Mae'n hoffi Rosina ac eisiau darganfod os yw hi'n ei hoffi hefyd.

Mae Figaro yn cyrraedd ac yn canu ei **aria** enwog iawn, 'Largo al factotum'. Mae Almaviva yn gofyn am ei gymorth i gwrdd â Rosina. Mae Figaro yn dweud wrth Almaviva bod Rosina yn cael ei chadw dan glo, gan fod Bartolo yn gobeithio ei phriodi i gael ei harian. Mae'n dweud wrth Almaviva am guddio ei hun fel milwr i fynd i mewn i dŷ Dr Bartolo.

Mae llais Lindoro wedi dal calon Rosina. Mae Figaro yn annog Rosina i ysgrifennu at 'Lindoro', gan addo i anfon y llythyr.

Mae Almaviva yn llwyddo i fynd i mewn i'r tŷmewn cuddwisg. Mae'n llithro llythyr i Rosina, ond mae Bartolo yn amheus o 'Lindoro' ac

yn dechrau dadlau ag ef. Mae'r heddlu yn dod i ymchwilio, ac maent yn arestio Almaviva, ond mae'n datgelu ei enw go iawn ac yn cael ei ryddhau.

Act Dau

Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, mae Almaviva yn ail-fynd i'r tŷ, y tro yma wedi'i guddio fel 'Don Alonso' yr athro cerdd, i roi gwers ganu i Rosina. Mae hi a 'Lindoro' yn bwriadu rhedeg i ffwrdd gyda'i gilydd, ond mae Bartolo yn clywed eu cynllun.

Mae Bartolo yn twyllo Rosina, trwy ddweud wrthi fod 'Lindoro' yn gweithio i Almaviva, sydd eisiau ei phriodi am arian. Mae hi'n dorcalonnus ac yn cytuno i briodi Bartolo. Mae Figaro ac Almaviva yn sleifio i mewn i'r tŷ ac mae Rosina yn ddiog i ddechrau, ond mae Almaviva yn datgelu ei wir hunaniaeth. Mae ef a Rosina yn priodi ac mae Bartolo yn sylweddoli ei fod wedi cael ei guro ac yn penderfynu ymuno yn y dathliadau.

Ffeithiau hwyl

♪ Dysgodd Rossini i chwarae'r fiola mor gyflym fel ei fod yn chwarae

yn pit y gerddorfa ochr yn ochr â'i dad yn naw oed!

♪ Cafodd y drama *The Barber of Seville* gan Beaumarchais ei gwahardd rhag cael ei pherfformio y diwrnod cyn ei dangosiad cyntaf!

♪ Dim ond 23 oed oedd Rossini pan ysgrifennodd *The Barber of Seville*.

♪ Ysgrifennwyd yr opera *The Barber of Seville (Il barbiere di Siviglia)* yn Eidaleg yn wreiddiol. Teitl Eidaleg 'Sain y Morthwylion' yw 'Mi par d'esser con la testa', sy'n golygu 'Rydw i mewn dros fy mhen'.

♪ Digwyddodd sawl damwain fach ar y llwyfan yn ystod y perfformiad cyntaf: torrodd llinyn gitâr yn ystod yr olygfa gyntaf; fe faglod Basilio dros ddrws trap a gwneud i'w drwyn waedu; ac yn ystod y diwedd glo, cerddodd cath ar y llwyfan, cafodd ei symud i ffwrdd, yna ailymdangosodd yr ochr arall a neidiodd i ddwylo Bartolo!

♪ Y tro cyntaf caeth yr opera gael ei pherfformio, bu'r gynulleidfa

yn hisian ac yn gwawdio am nad oeddent yn ei hoffi - ond buan iawn y daeth yn llwyddiant.

♪ Gan ddychwelyd i Napoli ar ôl y perfformiadau cyntaf, dywedodd Rossini wrth ei fam, 'Ysgrifennais atoch sut y cafodd fy opera yn aflwyddiannus, nawr gallaf ysgrifennu, ar yr ail noson a'r holl berfformiadau canlynol, eu bod wedi bloeddi'r opera gyda ffanatigiaeth annisgrifiadwy! Es i allan pump, chwe gwaith i dderbyn cymeradwyaeth o fath hollol newydd ac y gwnaeth i mi grio gyda phleser'.

♪ *The Barber of Seville* oedd yr opera gyntaf i Carlo Rizzi (Arweinydd Llawryfog WNO) arwain gyda'r cwmni, yn 1991.

Credydau

Cyfieithiad Saesneg gan George Mead © Casa Ricordi, Milan (Universal Music Publishing Group).

Cyfieithiad Cymraeg gan Sioned Harries, a ysgrifennwyd yn wreiddiol ar gyfer cynhyrchiad Opra Cymru o *The Barber of Seville*.

Ffotograffau gan Johan Persson.